

Gair bach Bethlehem 2



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 2 2020

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

Neges Heulwen i'r plant a'u rhieni

Beth-we-hem! Ysgol Sul ar-lein

Helo blant Ysgol Sul Bethlehem!

Na, dy' ni ddim wedi anghofio amdanoch chi! Gobeithio'ch bod chi wedi canfod digon o bethe i wneud gartre' a, gan bod y tywydd wedi bod yn braf, gobeithio'ch bod chi wedi bod yn chwarae yn yr ardd, a gwneud bach o arddio falle!

Yn ystod yr wythnosau nesa fe fydda i'n paratoi gwersi i blant yr Ysgol Sul a'u hanfon at y teuluoedd yn uniongyrchol dros e-bost.

Byddwn hefyd yn cynnal Ysgol Sul rithiol bob bore dydd Sul am 10.30 dros y we.

Os hoffech chi dderbyn copi o'r gwersi a'r linc rhowch wybod ac fe anfonaf y manylion atoch.

Heulwen Jones

heulwen@btinternet.com 07779 360614



(uchod) Disgyblion oedd yn Ysgol Sul Bethlehem ar brawn braf yn 2003 yn cael hoe o flaen y gegin. Hwn yw'r llun gafodd ei gyhoeddi yn "Llawlyfr Ymwelwyr" Undeb yr Annibynwyr, Caerdydd ar ddiwedd mis Mehefin y flwyddyn honno.

Pos bach i chi – rhowch enw i bob wyneb siriol sydd yn y llun! Mae rhagor o hen luniau yn y rhifyn hwn a mwy eto yn y rhifynnau nesaf – diolch i bawb am chwilota.

Gwyn ein byd y rhai Breintiedig.

Un o ddywediadau mynych fy mam oedd "Ma' wastad rhywun yn wa'th off na ni!", ac wrth ddarllen y neges destun isod gan ddoctor o'r India, fe ddaeth ei geiriau'n ôl i'm clyw:

"Ma' arwahanrwydd cymdeithasol (*social distancing*) yn fraint – mae'n golygu bod ganddoch chi dŷ digon o faint i'w weithredu. Ma' 'molchi dwylo hefyd yn fraint – mae'n golygu bod ganddoch chi gyflenwad o ddŵr glân a sebon. Ma' defnyddio diheintyddion dwylo yn fraint – mae'n golygu bod ganddoch chi'r arian i'w prynu. Ma' "Lockdown" yn fraint – mae'n golygu'ch bod chi'n gallu fforddio bod sha thre.

Fe ddylai pob un ohonom ni sy'n ymarfer arwahanrwydd cymdeithasol, ac sy'n hunan wahanu adre, sylweddoli pa mor freintiedig 'ym ni. Achos bydd y rhan fwya' o bobl yr India ddim yn gallu gwneud yr un o'r pethe hyn."

Dwi'n dy glywed di'n glir mam, does ond gobeithio y bydd Llywodraethau a Chwmnïau ac Unigolion Cyfoethog y Byd yn clywed hefyd. Clywed, a gweld yr angen, ac o weld... gweithredu.

Cadwch yn ddiogel,

Delwyn.



Neges i bawb...

- Gair i'ch atgoffa na fydd oedfaon ym Methlehem yn ystod mis Ebrill, ac y byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn ôl y cyfyngiadau fydd yn eu lle o fis i fis wedi hynny.
- Yn ychwanegol at y gefnogaeth ariannol yr ydych wedi ei wneud fel unigolion i Fanc Bwyd Caerdydd, 'rydym wedi cytuno i anfon siec gwerth £1000 i'r elusen yn gydnabyddiaeth o'r gwaith aruthrol sydd yn cael ei wneud er lles y teuluoedd rheini sydd mewn angen yn ein cymdeithas. Mae mwy nag erioed o deuluoedd yn ddibynnol ar y Banc Bwyd ar hyn o bryd yn sgil yr haint sydd yn ein plith.
- Mae nifer o'n haelodau a'u teuluoedd gyda chyswllt uniongyrchol fel gweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r gwasanaethau cymdeithasol, un a'i mewn ysbyty, mewn meddygfeydd, mewn cartrefi gofal neu fel gofawyr mewn cartrefi unigol. Gwyddom eu bod wedi profi amser hynod o ddirdynnol yn delio gyda'r coronafeirws a'i effaith ar ein cymdeithas a mawr yw ein diolch iddyn nhw i gyd am eu hymroddiad a'u dyfalbarhad.

2002 nid 2020 - a helmedau nid masgiau!



Sain Ffagan 2002

(Diolch i 'archif' Eirlys Davies Radur am ddod o hyd i'r cofnod hwn o ymweliad y Cwrdd Merched â'r amgueddfa tra roedd Eglwys Sant Teilo'n cael ei hail-godi yno.

*Diolch i bawb
sydd wedi cyfrannu i'r rhifyn hwn.
Mae croeso i bawb
chanoch anfon gair:
tycnau@aol.com*

Gair gan R Alun Evans

IFACIWIS

Fe ddaeth 'na lond trê'n ohonyn nhw i Lanbrynmair yn nechrau'r pedwar degau. Frankie, ie, Frankie Thompson a'i fam ddaeth acw. A phan na fyddai Frankie'n bihafio, hynny'n amlach na pheidio, byddai ei fam yn ei fygwth "Frankie l'll ... l'll (ac i'r glust Gymreig roedd acen Islington yn gwneud i'r "l'll" swnio fel "oil") ... l'll..." A'r bychan pum mlwydd yn gwbl ddidaro yn ymateb "Wot, will ya murder me Mum?"

Yn y dafarn y byddai 'Mum' yn hoffi treulio ei hamser ac roedd y dafarn honno, y Wynnstey, filltir go dda o Bron laen. Digon o amser i Frankie daro perthynas agos gyda nhad. 'Yncw Evans' fyddai Frankie'n ei alw. Os na chai ateb byddai Frankie yn ychwanegu "Where the b...y-well are ya?"

Un pnawn roedd nhad yn ei stydi, yn edrych allan tros yr ardd ac yn gweld Frankie yn hapus helpu ei hun i'r pys gan daflu'r codau ar lawr. Yn sydyn, rheddodd y bychan at waelod y grisiau gan weiddi "Yncw Evans ... 'urry up. I ain't 'alf seen your Wynn an' Alun pinching your peas."

Fu'r bychan ddim acw'n hir, chwech wythnos ar y mwya'. Nid am fod ei fam wedi ei lofruddio ond am fod yn well ganddi wynebu bomiau Islington na thawelwch cefn gwlad Maldwyn. Tybed beth ddaeth o Frankie ?

Wnaethoch chi liwio'r enfys?



Rydyn ni'n anfon ein cofion at y canlynol:

*Rhiannon ac R Alun Evans – bu farw Menna,
chwaer Rhiannon yn Wrecsam yn ddiweddar.*

*Judith Evans, dreuliodd gyfnod yn yr ysbyty wedi
damwain. Hi a'i phriod Ken heb fod yn hwylus ond
yn gwella.*

Gwilym Williams, sy'n gwella ar ôl llawdriniaeth.

*... a phawb o'n haelodau sydd wedi bod yn
anhwylus yn ddiweddar.*

Dyma i chi (*chwith uchod*) Gweni ac Aaron
ac yna (*dde isod*) Luned ac Ifan, gyda'r
lluniau o'r enfys roeddwn nhw wedi eu
llunio i fynegi eu diolch i'r holl staff
meddygol a gofalwyr sy'n gweithio drwy'r
argyfwng presennol.

Tri thriban

(i gynnwys enwau tri o leoedd yr ardal – ond cyn y
cyfyngiadau presennol!)

*Mi es un noson olau
I Asda ym Mhontpennau
I wincio ar ferch y cownter cig;
Un hynod ddig ei hwyliau.*

*Nos arall draw i "Ponty"
Ac i archfarchnad Sainsb'ry
Cyn gwenu ar ferch y cownter caws;
Dwyf damaid haws, er hynny.*

*Afheddi gefn dydd golau
I Tesgo Bach yn Creigiau;
Mae'r prisiau 'chydig bach yn uwch,
Ond duwch, mi gasglaf bwyntiau!*

Bil wrth y Til



Dros 30 mlynedd yn ôl!

Y ddrama Nadolig tua 1989 - sylwer yr organydd ifanc. Diolch i Delyth Evans, Yr Eglwys Newydd, am y llun ac am y ddau isod.



(chwith uchod)
Pencampwriaeth
Pêl-rwyd
ddiwedd y 90au
(chwith isod)
Pencampwriaeth
Pêl-droed 5 bob
ochor ddiwedd y
90au

Jôcs Meilir

Mae Meilir Sion yn gwahodd ieuencid Bethlehem i anfon eu jôcs nhw aton ni – ac mae e'n cychwyn gyda'r rhain:

- ❖ Lle ma'r bobl ffôl yn byw ? Rhos-SILI !
- ❖ Lle ma'r bobl heini'n byw ? Aber-YSTWYTH !
- ❖ Lle ma' wiwerod cynnes yn byw ? Coed-POETH !
- ❖ Lle ma'r defaid sy'n gallu canu yn byw ? Baaa-la!La!
la! la! la! la !

Felly - dewch, derbyniwch yr her. Beth ydy eich hoff jôc? Anfonwch un – neu gofynnwch i rywun o'r teulu ei hanfon aton ni.

Dyma i chi un arall anfonwyd i mewn:

Roedd 5 teithiwr ar fwrdd awyren: Donald Trump, Boris Johnson, Angela Merkel, y Pab a bachgen 10 oed. Yn sydyn, mae sŵn mawr a'r awyren ar fin plymio i'r ddaear, ond dim ond 4 parasiwt sydd.

Medde Trump, 'Rhaid i mi gael parasiwt, achos fi yw'r dyn doetha' yn yr America a'r boi gore i ddatrys probleme'r byd'. Ac i ffwrdd ag e.

Medde Boris, 'Rhaid i minne gael un er mwyn mynd i ddatrys probleme Prydain'. Ac i ffwrdd ag ynte.

Dyma'r Pab wedyn yn dweud, 'Dwi angen un achos mae angen yr Eglwys Gatholig ar y byd'. Ac aeth yntau i'w dilyn.

Trodd Angela at y bachgen 10 oed, 'Cymer di'r parasiwt ola', fy machgen. Dw i wedi byw fy mywyd, megis dechre arni wyt tithe.'

'Ond Angela', medde'r hogyn, ma' 'na ddau barasiwt ar ôl. Mae dyn doetha'r America wedi cymryd fy mag ysgol!!'



Gethsemane

Ychydig llai na blwyddyn yn ôl 'roedd Ann a minnau ar daith yng ngwledydd Israel a Phalesteina. A ninnau ar drothwy'r Pasg mae'n anodd peidio a meddwl 'nol am y llefydd rheini yn Jeriwsalem a welsom sy'n rhan mor greiddiol o'r "wythnos fawr" yn ein calendr Cristnogol ni. 'Roedd y crwydro ar hyd y Via Dolorosa, gweld union fan y croeshoeliad ar fryn Golgotha a chamu i'r bedd gwag yn brofiad i'w barchu a'i drysori, ond rhywsut nid i'w gofleidio, i'r graddau nad oedd modd gwneud hynny ynghanol y cannoedd a mwy o bobl eraill o bedwar ban byd oedd

hefyd yn pererindota fel ni.

A'r siom mewn un ystyr o sylweddoli fod 'na ymrafael rhwng dau safle am union leoliad Lle'r Benglog a'r bedd gwag, un tu fewn i Eglwys y Beddrod Sanctaidd, a'r llall "tu allan i furiau'r dref" ger Porth Damascus. Ond 'roedd 'na serch hynny gyfle i ymddihatru mewn un man arall sydd a rhan greiddiol yn stori'r Pasg, ac yno, ar un bore Sul, y daethom i gyffyrddiad, a chael ein cyffwrdd, gan y ddigwyddiadau rheini ddwy fil a mwy o flynyddoedd yn ôl.

Fe anfonais neges i Delwyn y bore hwnnw o Ardd Gethsemane, yn ymddiheuro am ein habsenoldeb o'r cwrdd, yn ddiarwybod mai trafod "gerddi" oedd yntau yn ei gyflwyniad i gynulleidfa Bethlehem bryd hynny, a'r ardd yma yn un o'r tair y bu'n myfyrio arnynt.

Dyma'r fan, wrth droed Mynydd yr Olewydd, lle bu i Iesu Grist, yng nghwmni Pedr, Iago ac Ioan, neilltuo i weddio wedi'r Swper Olaf.

Yma hefyd y bradychodd Jwdas ef a chusan, yma cafodd ei arestio, ac yma y torrwyd clust dde gwas yr archoffeiriad, a'i hadfer, ac oddi yma y dihangodd y disgyblion wedi'r gythrwfl.

Mae blodau yma, ac yma hefyd o hyd mae'r coed Olewydd (dde)y bu'r Iesu yn ymochel oddi tanynt, gan yr honnir eu bod, yn ôl traddodiad, yn tarddu o wraidd y coed gwreiddiol o'r cyfnod.

Ynghanol prysurdeb y ddinas gaerog draw ar y bryn gyferbyn, 'roedd yma dawelwch, er nad oeddem ar ein pennau ein hunain yno, ac am ennyd cawsom gyfle i anghofio am y byd a'i broblemau, a'n gorfodi, fel Gwilym R Jones gynt i gydnabod

*"O! yr oeddem ninnau yno,
a byth ni ddylid gadael inni ei anghofio".*



Gair gan Joy ac Eifion Glyn

DAU GORONA

Fydd ystyr 'corona' fyth yr un fath ar ôl helbul y plama. Dyna oedd testun sgwrs Joy a minnau dros ginio yn fuan wedi i ni sylweddoli difrifoldeb yr argyfwng presennol. I'n cenhedlaeth ni roedd corono yn golygu trît bach, diod amheuthun unwaith yn y pedwar amser. Dyma atgofion Joy yn iaith y 'wês, wês':

'Wên i'n cysylltu Corona ag amser cino dy Sul achos 'na pryd fydde'r botel yn cyrradd y ford. Yr un, un bob tro - Dandelion and Burdock. A we hon ddim yn ymddangos tan we'r pwdin



macaroni wedi ei 'fennu ganddon ni i gyd. We'r pop yn cael ei rannu rhwngddon ni ond wedd y gwydre ddim yn union 'run faint felly we llyged barcud fi a'm tair war yn dilyn y botel ac yn cymharu faint we pawb yn

cal ac ambell i un ohono ni'n cwyno bod ni 'di cal cam. Mam fydde'r un we yng ngofal y botel ac wrth gwrs llwnc bach we'i dogn hi. Cofio'r amser hapus yna fydda i, wrth estyn y botel ddwr o Ikea, dwi'n cadw yn y ffrij. Botel a chaead, tebyg iawn i'r fotel Corono slawer dydd.'

Dydi fy atgofion i o'm plentyndod (nac o'r ddiod felys fasa hi'n mynd i hynny) ddim mor groyw a rhai Joy. O'm rhan i enw Wil Corona sy'n llamu i'r cof pan grybwyllwch y gair. Er nad dyna oeddwn i a Rhodri Gwynn yn ei alw.

Roedd Wil Cae Ucha' yn yr un dosbarth a Rhodri a minnau yn ysgol gynradd Penygroes. Ffarm fechan ar ochor mynydd Cilgwyn rhwng Penygroes a Charmel oedd Cae Uchaf ac roedd Wil yn hogyn talgryf gwallt melyn. Flynyddoedd ar ôl i ni adael y fro y dath Wil Cae Ucha' yn Wil Corona a hynny am ei fod yn gyrru lori oedd yn mynd a'r poteli pop o gwmpas siopa'r ardal.

Fy mhrif atgof i o Wil oedd digwyddiad digon doniol yn yr ysgol fach. Un diwrnod daeth un o hogia'r pentre i'r ysgol a golwg reit swish a gwahanol arno. Roedd gan John Keith, fel Wil Cae Ucha, wallt golau cry' ac anystywallt braidd. Ond y bora hwnnw roedd ei wallt wedi ei ddfodi ac yn sgleinio efo rhesen daclus ar un ochor. Roedden ni hogia yn methu deall sut y digwyddodd y fath drawsnewidiad. "Oel," meddai John Keith, "mi roth dad slefran o oel arno."

Hogyn ffarm fel y dwedais oedd Wil Cae Ucha a fore trannoeth mi 'na'th gyrraedd yr ysgol a golwg y DL arno. Roedd o wedi rhoi oel tractor ar ei wallt!

Gair gan Wyn Jones

GRŴP BETHLEHEM AR 'FACEBOOK'

Mae gyda Bethlehem nawr Grŵp ar Facebook sy'n ei gwneud hi'n haws i grwpiau o bobl ymwneud a'i gilydd ar FB. Enw'r grŵp yw "Bethlehem Gwaelod y Garth".

Os oes unrhyw un sy' ar FB am ymuno, mae angen gwneud cais ac fe fydd Allan Pickard neu fi'n galluogi iddyn nhw i ymuno. Mae'r grŵp yn un cyhoeddus sy'n golygu gall unrhyw un weld beth sy'n cael eu ddweud ond dim ond aelodau'r grŵp sy'n gallu cyfrannu.

Gair gan Allan Pickard

Ffŵl Ebrill

Roedd bore Ebrill 1af yn fore o hwyl a chwerthin yn ein tŷ ni pan oeddwn yn blentyn.

Go brin fod rhaid esbonio pam. Fe fydda fy rhieni yn chwarae'r gêm yn berffaith. Cymryd arnynt fod fy ymdrechion i'w dal wedi llwyddo er mwyn i fi gael gweiddi "Ffŵl Ebrill" wrth fy Mam, a "April Fool" wrth fy Nhad. I ble'r aeth dyddiau'r math o ddiniweidrwydd, dwedwch? Go brin fod yr un awydd am driciau Ffŵl Ebrill eleni.

Mae mwy nag un awgrym sut y dechreuodd yr arfer. Yn ôl rhai, rhaid mynd nôl i 1582 pan newidiodd Ffrainc o Galendr Julius i Galendr Gregori. Daeth y rhai oedd yn araf i dderbyn bod dechrau blwyddyn wedi symud i Ionawr 1af yn hytrach nag yn wythnos olaf Mawrth i Ebrill 1af yn wrthrych tynnu coes. Mae'n siŵr bod y ffŵl wedi amlygu'i hun yn gynnar yn esblygiad y ddynoliaeth, a bu'n destun sylw sawl un oedd yn tybio nad oedd yn un ohonynt.

- "Ofn yr ARGLWYDD yw dechrau gwybodaeth, ond y mae ffyliaid yn diystyru doethineb a disgyblaeth." Diarhebion 1.7
- "Y mae'r doeth yn siarad am fod ganddynt rywbeth i'w ddweud.; ffyliaid am fod rhaid iddynt ddweud rhywbeth." Platon
- "Y ffôl nid hoff ganddo ddeall, ond bod i'w galon ei ddatguddio ei hun." Diarhebion 18.2
- "Nid oes angen cyngor ar y doeth. Neith ffyliaid mo'i dderbyn." Benjamin Franklin
- "Y mae ffordd y ffôl yn iawn yn ei olwg, ond gwrendy'r doeth ar gyngor." Diarhebion 12.15
- "Mae'r ffŵl yn gwybod pris popeth ond gwerth dim."
- "Y mae'r un sy'n ateb cyn gwranddo yn dangos ffolineb ac amarch." Diarhebion 18.13
- "Gall y doeth ymddangos yn wrthun yng nghwmni ffyliaid."
- "Dim ond ffŵl sy'n meddwl wrtho'i hun, 'Dydy Duw ddim yn bodoli.'" Salm 53.1
- "If we don't plant the right things, we will reap the wrong things. It goes without saying. And you don't have to be, you know, a brilliant biochemist and you don't have to have an IQ of 150. Just common sense tells you to be kind, ninny, fool. Be kind." Maya Angelou.
- "Y mae ymresymu â ffŵl fel ymresymu â dyn cysglyd." Ecc 22.8



Taw piau felly!

Dilyn y Darlun



Llun gan Anthony Evans ydy'r uchod, un brynon ni i'n gilydd ar adeg dathlu penblwydd hanner cant ein priodas. Ar anogaeth yr arlunydd, penderfynon ni fynd i ymweld â'r eglwys hon o'r unfed ganrif ar ddeg, yn nyffryn diarffordd Grwyne Fawr, ryw 6 milltir i'r gogledd o'r Fenni. Mae Anthony yn unigolyn anodd iawn peidio ag ufuddhau i'w gyngor.

Yng ngwesty Gliffaes, ryw dair milltir o Grughywel roedden ni'n aros yn ystod ein dathliad – lle hynod o ddiddorol gyda'i olygfeydd o fryniau eang Bannau Brycheiniog ac afon Wysg yn ogystal â'r casgliad eang o goedwigoedd sydd yno. Ac yn ystod pryd o fwyd bendigedig gyda'r nos, dyma Ifan yn dweud, "O'r nefoedd Mags, ni allwn ddianc rhag hwn!! Yno y tu ôl i mi, roedd darlun enfawr gwych (*dde*) o'r ardal yn ei gogoniant gan neb allai nag Anthony Evans. Mae'n debyg i'r perchnogion brynu'r darlun yn Oriel Albany yng Nghaerdydd.

Y bore canlynol, penderfynu mynd i ymweld ag Eglwys Patricio, testun y darlun sydd yn tŷ ni, ond aros am goffi yng Nghrughywel. Pwy welon ni ar y stryd fawr yn y dre ond yr hynaws Dewi Myrddin a'i wraig oedd, drwy gyd-ddigwyddiad, newydd fod yn ymweld ag Eglwys Patricio ac wedi'u cyfareddu'n llwyr.

Felly, ymlaen â ni i fynyr bryniau drwy lon gul, lle nad oedd bosib i ddau basio'i gilydd - taith ddigon i godi gwallt eich pen, ond yn werth yr ymdrech i'w thramwyo ar ôl cyrraedd.

Beth oedd o'n blaen ynghanol golygfeydd syfrdanol ar lethr dyffryn hardd Grwyne Fawr ond eglwys fach ddinod, syml, ond o fynd i mewn iddi cael cipolwg ar hanes rhyfeddol. Cael gweld sut byddai addoldai cyn y diwygiad Protestannaidd,



pensaerniaeth hardd, peintiadau wal, bedyddfaen cyn Normanaidd, ffigurau Dydd y Farn, yr ysgrythurau, allorau canoloesol, ac wrth gwrs y Groglen wych o dderw Gwyddelig o'r unfed ganrif ar bymtheg cynnar, efallai yr un fwyaf cyflawn yng Nghymru. (*Ilun chwith*)

Yno hefyd mae Eglwys y Bedd, siambr fechan a adeiladwyd y credir dros feddrod Sant Issui. Bob tro bydda i'n edrych ar y darlun beintiodd Anthony, rydw i'n ail-fyw'r profiad unigryw ac yn sicrhwyddod i ddal hud a chyfleu ysbryd ac enaid y lle. Ewch yno!

Gwasanaeth Gwener y Groglith

Roedd yn fwriad gan y Parchedig Ddr. R Alun Evans gynnal yr oedfa ym Methlehem ar fore Gwener y Groglith. Bellach, wrth gwrs, nid oes modd cynnal y cyfarfod. Ond, mae'r deunydd wedi ei baratoi gan Alun a bydd yr Ysgrifennydd, Rhodri-Gwynn, yn dosbarthu copïau i chi ar e-bost. Felly, pan ddaw hi'n 10.30 ar y bore Gwener, mae croeso i chi gyd-darllen a chyd-fyfyrio ar eich aelwydydd eich hunan.

Pwy di Pwy?



Dafi Rhys Wyatt ydw i. Dwi'n un o'r aelodau ieuengaf yn y capel, ond dwi'n falch o ddeud fy mod i eisoes wedi cymryd rhan yn un o gyflwyniadau'r capel. Fe gefais y cyfle, ym mreichiau fy mam, i ganu cân olaf y cyflwyniad Nadolig diwethaf sef "Nadolig yn ein byd Bregus".

'Roedd fy mrawd mawr, Wil Owen, yn fugail yn yr un cyflwyniad.

Ym mis Medi y cefais fy ngeni, a hynny yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, Caerdydd, ond yn ôl mam mi gyrhaeddais rhyw fis ynghynt nag oeddwn i fod i'm geni. Er, o wybod be sy'n digwydd yn ein "byd bregus" ar hyn o bryd, ella y buasai'n well petawn wedi aros am rhyw 'chydig fisoedd eto cyn mentro i'ch plith!

Ond wedi dweud hynny, oherwydd bod dad, Daniel, yn gweithio gartref, a mam, Marged, yn amlwg ar gyfnod mamolaeth, a Wil ar wyliau estynedig o Ysgol Treganna, yna dwi'n cael sylw di-ben-draw gan bawb o'r teulu. Ac os nad ydwi'n cael sylw, dim ond sgrechian sydd

angen i mi ei wneud ac mi ddônt ar ras i fy nghysuro.

Mae gen i ddau ddant yn barod, a mwy ar y ffordd dwi'n meddwl, wel yn ôl Wil beth bynnag, wrth i mi ei plannu i'w fraich dde a gadael eu hol arno yn un tatŵ coch.

Ella y bydd gen i lond ceg o ddannedd cyn i'r feirws 'ma gilio, ond yn y cyfamser gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n saff.

Pwy ydy Pwy? Chi tro nesa!

Dwedwch dípy'n o'ch hanes wrthon ní! Mae Dafi wedi anfon ei hanes aton ní'r tro hwn. Byddai'n braf i ní gael darllen amdanoch chí hefyd!

Eich enw:

Brawddeg neu ddwy am eich dyddiau cynnar:

.....
.....

Brawddeg neu ddwy amdanoch chí nawr:

.....
.....

Atgofion neu stori am unrhywbeth:

.....
.....

Pam dod i Fethlehem?

.....
.....

Unrhyw sylw arall

.....
.....

YR WYTHNOS FAWR
Sul y Blodau
5 Ebrill, Olaf cyn Y Pasg, Grawys 6



Darlleniadau
Salm 118.1-2, 19-29
Mathew 21.1-11

Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi: "Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!"

Gweddi

Gweddiwn am i Arglwydd Sul y Blodau ein bendithio heddiw.
Tyrd i'r manau lle'r ydym yn byw, Arglwydd; tyrd â gobaith ac achos llawenydd.
Tyrd at gynulleidfaoedd gwasgaredig ein gwlad, Arglwydd; glanha ni o bopeth
nad yw'n un â'th ewyllys di.
Tyrd i'n calonnau, Arglwydd; dysg i ni dy gariad a'th wirionedd.
Hosanna i'r Brenin sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Amen,
(Addasiad o weddi yn Cyfoeth o'i Drysor)

Mathew 21.1-11

Mae Iesu'n cyrraedd Jerwsalem ar gefn asyn.
Mae torf fawr yn ei groesawu, ond mae rhai mewn penbleth ac yn holi, "Pwy yw hwn?"
Daw ateb, "Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngalilea."
Hanes cyrraedd a chyflawni.
Nid milwr pwerus, ond un sy'n cynnig ei hun i eraill mewn gostyngeiddrwydd.
Uno, nid rhannu yw ei nod. Daw i gynnig heddwch a chymod.
Cyn diwedd yr wythnos bydd y cyfan yn cael ei wrthod.
O'i flaen mae croes a marwolaeth.

"Shut-in-pilgrims"



Ni fydd y torfeydd yn tyrru i Jerwsalem ar Sul y Blodau eleni. Y mae grym gwahanol ar gerdded yno fel ym mhob man arall, grym sydd wedi chwalu strwythurau'n bywydau cyffyrddus, a siglo sylfaeni pob agwedd ar fywyd. Faint o awydd, tybed, sydd ynom ni sy'n cydnabod arwyddocâd y diwrnod i chwifio ein baneri, yn yr awel iach, gan seinio clod i'r Iesu?

"Nid bywyd sy'n cyfrif, ond y dewrder a berthyn iddo, a'r dyn llawen yw'r dyn a gafodd hyd i gyfrinach dewrder." *(Hugh Walpole)*

Pwy all beidio canu
moliant iddo ef;
Y mae Brenin Seion
wedi dod i'r dref.
(Nantlais)



Allan Pickard

ODLAU'R GARTH

Dewch, dewch! Chi limrigwyr, benillwyr, a 'ballu – anfonwch rywbeth!

Llythyr gan Coronavirus i'r ddynoliaeth

Sisialodd y ddaear ond wnest ti ddim clywed.
Siaradodd y ddaear ond wnest ti ddim gwranddo.
Sgrechiodd y ddaear ond chym'rest ti ddim sylw.
Felly, fe'm ganed i ...
Ches i 'mo ngeni i dy gosbi di ...
Mi ges i 'ngeni i drïo dy ddeffro di.
Gwaeddodd y ddaear am help.
Llifogydd enbyd. Ond wnest ti ddim gwranddo.
Tanau ffyrnig. Ond wnest ti ddim gwranddo.
Trowyntoedd grymus. Ond wnest ti ddim gwranddo.
Corwyntoedd dychrynlyd. Ond wnest ti ddim gwranddo.
'Dwyt ti, hyd yn oed nawr, ddim yn gwranddo
ar y ddaear pan
fo llygredd yn lladd anifeiliaid yn y cefnforoedd,
rhewlifoedd yn toddi ar raddfa arswydus;
sychder enbydus.
Wnest ti ddim gwranddo ar gymaint
o negyddiaeth sy'n pwnio'r ddaear.
Rhyfeloedd diddiwedd;
trachwant diddiwedd.
Bwrw mla'n â dy fywyd wnest ti
Heb falio faint o gasineb oedd yn bod;
Heb falio faint o ladd oedd yn digwydd yn ddyddiol.
Yn hytrach na becco am lais y ddaear,
becco oeddet ti a oedd gen ti'r I-Phone ddiweddar.
Ond nawr rydw i yma.
Ac rydw i wedi peri i'r byd stopio'n stond.
Rwy' wedi gwneud i TI wrando o'r diwedd.
Rwy' wedi gwneud i ti orfod chwilio am loches.
Rwy' wedi gwneud i ti beidio â meddwl am bethau materol.
Nawr rwy'ti 'run fath â'r ddaear.
Dim ond sut wyt TI'n mynd i oroesi sydd ar dy feddwl di.
Sut mae hynny'n teimlo ?

Rwy'n rhoi twymyn i ti – tra bo
tanau yn llosgi ar y ddaear.
Rwy'n achosi problemau anadlu i ti
tra bo llygredd yn llenwi'r awyr.
Rwy'n peri gwendid i ti tra bo'r ddaear yn gwanychu bob
dydd.
Fy ddygais dy holl gysuron di,
Dy aml deithiau.
Y pethau fyddet ti'n eu gwneud
i drïo anghofio am boen y blaned.
Ac fe stopiais i'r byd yn stond.
A nawr mae awyr China yn burach.
Mae yno awyr las am nad yw'r ffatrioedd yn chwydu eu
llygredd.
Mae'r dŵr yn Fenis yn lân
ac mae ambell ddolffin i'w weld am nad yw'r cychod
gondola ar waith.
Ac rwy'ti yn gorfod pwylllo
i ystyried beth sy'n bwysig mewn bywyd.
A dydw i ddim yma i dy gosbi di.
Rydw i yma i dy ddeffro di.

*Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf?
Erbyn Ebrill 8fed at
tycnau@aol.com*

Pan ddaw hyn i gyd i ben, a finne wedi diflannu,
cofia am y munudau hyn.
Gwranddo ar y ddaear.
Gwranddo ar dy enaid.
Paid â llygru'r ddaear.
Paid â chweryla.
Rho lai o bwys ar bethau materol
A rho gynnig ar garu dy gymydog.
Dechreua feddwl am y ddaear a'i holl greaduriaid.
Dechreua gredu mewn Creawdwr
Oherwydd y tro nesa', falle dōf i nôl hyd yn oed yn waeth.
Arwyddwyd,
Coronavirus

[Cyfieithiad 'Rh A' o gerdd "Vivienne"]

Triban: Caethiwed

Mae'r bysus gwag yn teithio
a'r gyrrwyr swrth yn danto
ond fe ddaw eto haul ar fryn
ar ôl i hyn fynd heibio.

M H

Y Dyfodiad

(aralleiriad o "The Coming" gan R S Thomas)

A daliodd Duw yn ei law
Glôb fechan. Edrych, meddai,
Edrychodd y mab. Ymhell i ffwrdd
Fel petae trwy ddŵr, gwelodd
Wlad losgedig
o liwiau tanbaid. Llosgi'r golau
yno; adeiladau cramennog
yn taflu cysgodion; ymlusgiad
llachar, afon
yn dad-ddirwyn ei hun, yn pelydru
o lysnafedd.

Ar fryn
Llwm 'roedd coeden lom yn tristáu'r
Awyr. 'Roedd llawer o bobl
yn dal eu breichiau tenau
ati, fel petaent yn disgwyl
i Ebrill diflanedig
I ddychwel i'w changhennau
Croes. Edrychodd y mab
Arnynt. Gadewch i mi fynd yna, meddai.

(trosiad) Rhodri-Gwynn Jones